# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 13 Gorffennaf 2020

Amser: 14.00 - 16.45

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6419

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Nick Ramsay AS |
| Tystion: | Simon Hart MP, Ysgrifennydd Gwladol Cymru<br>Geth Williams, Swyddfa Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mark Reckless AS.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

**PTN1 – Llythyr gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu at Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol – Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 – 17 Mehefin 2020**

**PTN2 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd – Cyfarfodydd rhwng y pedwar Gweinidog Cyllid – 19 Mehefin 2020**

**PTN3 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd – Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21: Camau gweithredu o'r cyfarfod ar 4 Mehefin 2020 – 22 Mehefin 2020**

**PTN4 – Llythyr gan y Gweinidog Addysg – Mwy o gyllid at ddibenion Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer y sector Addysg Uwch – 23 Mehefin 2020**

**PTN 5 – Llythyr gan y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd – Polisi buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit – 25 Mehefin 2020**

**PTN 6 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd – Cronfa Wrth Gefn y DU – 3 Gorffennaf 2020**

**PTN 7 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at Ganghellor y Trysorlys: Diweddariad economaidd yr haf - 3 Gorffennaf 2020**

**PTN 8 – Llythyr gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru at Ganghellor y Trysorlys: Y Cynllun Cadw Swyddi a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig - 4 Mehefin 2020**

**PTN9 – Llythyr gan Gomisiwn y Senedd: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect Meddalwedd Deddfwriaeth - 7 Gorffennaf 2020**

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 4, 5, 6, 7, 8 a 10

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Ymchwiliad i broses cyllideb ddeddfwriaethol: Trafod yr adroddiad drafft

4.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft.

## 5 Penodi Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru: Trafod yr adroddiad drafft

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft.

## 6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22: Dull o gynnal gwaith craffu

8.1 Trafododd y Pwyllgor ei ddull o gynnal gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, sydd ar y gweill, ar gyfer 2021-22.

## 7 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

7.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith ar gyfer tymor yr hydref.

## 8 Trafod ymatebion gan Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol: Effaith ariannol pandemig COVID-19

8.1 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y cyrff a ariennir yn uniongyrchol.

## 9 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gwir Anrh. Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru

9.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gwir Anrh. Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Geth Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr y Cyfansoddiad, Swyddfa Cymru ar yr ymateb ariannol i COVID-19.

9.2 Gofynnodd y Pwyllgor am fanylion cyfrifiadau Trysorlys EM o ran y cyllid gwerth £500 miliwn mewn ymateb i COVID-19 ar gyfer Cymru, a gyhoeddwyd gan y Canghellor yn Niweddariad Economaidd yr Haf.

## 10 COVID-19: Trafod y dystiolaeth

10.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.